

# Cod Ymarfer Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr

Cod 10: 2017 Fersiwn 1.1  
Yn dod i rym: 1 Hydref 2017



Dyddiad	Yn Disodli	Disgrifiad o'r Newid
1 Hydref 2017.	Fersiwn 2016.	Diweddariad cyffredinol.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd Gan	Dyddiad y Cymeradwywyd	Amllder Adolygu
Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio.	Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig.	5 Hydref 2017.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cod Ymarfer Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

---

## Rhagarweiniad

1. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i'r holl drefniadau a weithredir gan y brifysgol i ddelio â chwynion ac apeliadau myfyrwyr . Mae hyn yn cynnwys trefniadau cwyno ac apelio sy'n ymwneud â materion academaidd a phrosesau sy'n rhan o drefniadau canolog ac adrannol eraill.
2. Rhaid darllen y cod hwn ar y cyd â'r canlynol:
  - Trefn Cwynion Myfyrwyr
  - Trefn Apeliadau Academiadd

## Egwyddorion Cyffredinol

3. Mae trefniadau'r brifysgol ar gyfer ymateb i gwynion ac apeliadau myfyrwyr yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

### Y Trefniadau

- Mae'r holl drefniadau ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau wedi eu dogfennu'n glir.
- Cofnodir yn ffurfiol yr holl gwynion ac apeliadau a gyflwynir ynghyd â'r canlyniad.
- Mae trefniadau cwynion ac apeliadau'n anwahaniaethol ac yn ddiduedd.
- Mae trefniadau cwynion ac apeliadau'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd.
- Y nod yw datrys cwynion ac apeliadau mor gyflym â phosibl.
- Dylid cyflwyno cwynion yn anffurfiol yn y lle cyntaf, mor agos ag sydd bosibl at eu gwraidd, a chan gynnwys yr unigolion sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â'r mater;
- Ni ddylai unrhyw siom oherwydd y canlyniad terfynol gael ei ddwysau oherwydd y prosesau a ddefnyddir i ystyried y gŵyn neu'r apêl.
- Os bydd myfyriwr yn dal yn anfodlon ar ôl i'r brifysgol ystyried cwyn neu apêl, ac ar ôl i lythyr Cwblhau Trefniadau wedi ei anfon, gall ef/hi apelio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

### Hawliau a Chyfrifoldebau Myfyrwyr

- Mae gan bob myfyriwr yr hawl i gwyno neu apelio yn erbyn unrhyw wasanaeth, trefn academaidd neu weinyddol, neu lle mae o'r farn bod gwahaniaethu neu aflonyddu'n digwydd;

- Ni ddylid cyflwyno nac ymdrin â chwyn yn ffurfiol oni fu'n amhosib datrys y mater yn anffurfiol.
- Ni ddylid cyflwyno cwyn nac apêl yn ysgafn neu'n faleisus;
- Dylai cwynion ac apeliadau gael eu cyflwyno gan fyfyrwyr unigol a dylid ymdrin â hwy'n unigol neu ar sail achos unigol. Lle bo'r materion a godir yn effeithio nifer o fyfyrwyr, gall y myfyrwyr hynny gyflwyno cwyn neu apêl fel cwyn gan y grŵp neu apêl gan y grŵp.
- Y myfyriwr fel rheol ddylai gyflwyno'r gwyn neu'r apêl oni bai fod y myfyriwr wedi awdurdodi rhywun (er enghraifft, staff o Undeb y Myfyrwyr) i weithredu ar eu rhan.
- Mae'n bosib i fyfyriwr gael rhywun gydag ef/hi neu gael rhywun i'w gynrychioli ef/hi mewn unrhyw gyfarfod neu ohebiaeth yn ymwneud â chwyn neu apêl, (e.e. Undeb y Myfyrwyr, tiwtor personol, aelod o'r teulu neu ffrind).
- Mae gan bob myfyriwr hawl i dderbyn rhesymau dros benderfyniadau ar ôl i gwyn/apêl gael ei hystyried, ac i gael gwybod am unrhyw gyfle i gyflwyno apêl bellach.

### **Cwynion**

4. Y nod yw datrys cwynion yn anffurfiol. Yn aml gellir datrys materion yn anffurfiol os cânt eu codi mewn ffordd amserol a rhesymol. Os oes gan fyfyriwr bryderon am unrhyw agwedd ar y cwrs, y cyfleusterau addysgu a dysgu neu'r gwasanaethau ategol, dylid trafod y mater, yn y lle cyntaf, gydag aelod staff sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth. Neu gellir trafod y pryderon gyda thiwtor y myfyriwr neu aelod staff priodol arall.
5. Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon ar yr ymateb ar ôl y broses anffurfiol ddechreuol, yna dylai'r myfyriwr ddod a'r pryderon i sylw pennaeth yr adran berthnasol (ysgol neu adran gwasanaethau canolog).
6. Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon ar yr ymateb gan bennaeth yr adran gellir cyflwyno cwyn ffurfiol i'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).
7. Darperir llwybr i apelio yn erbyn penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) ar gwyn.
8. Y nod yw sicrhau bod cwynion yn cael eu datrys mor gyflym â phosib. Os bydd oedi ar unrhyw gam, rhaid rhoi gwybod trwy lythyr i'r myfyriwr, gan gynnwys amcangyfrif o'r amser fydd ei angen i ystyried y gwyn.

### **Apeliadau yn erbyn penderfyniadau Byrddau Arholwyr.**

9. Mae gan y brifysgol drefn yn ei lle i fyfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniadau Byrddau Arholwyr. Rhaid seilio'r apêl ar resymau a ddiffinnir ac ni chaniateir apeliadau sy'n cwstyynu dyfarniad academaidd yr arholwyr.
10. Mae gan y brifysgol brosesau yn eu lle i apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed o dan drefniadau eraill (e.e. trefniadau disgyblu, y drefn Uniondeb Academaidd, a threfniadau addasrwydd i ymarfer).

11. Wrth apelio yn erbyn penderfyniad Bwrdd Arholi y mae cam cadarnhau (gwirio) ac apelio. Proses yw cadarnhad lle mae myfyrwyr yn gallu gwirio'r canlynol:

- Nad yw'r canlyniadau cyhoeddedig yn cynnwys unrhyw wallau rhifyddol na gwallau ffeithiol eraill.
- Bod yr arholwyr yn ymwybodol o amgylchiadau personol eithriadol a adroddwyd gan y myfyriwr cyn cyfarfod y Bwrdd Arholwyr.
- bod yr arholwyr yn gwybod am ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y trefnwyd/ y cynhaliwyd yr arholiadau/ gwaith cwrs, ac a allai, ym marn y myfyriwr, fod wedi amharu ar y marciau.

12. Ni chaniateir apelio hyd nes y bydd y drefn gadarnhau wedi ei chwblhau. Ystyrir apeliadau gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu ei enwebai. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu ei enwebai yn penderfynu a ddylid gwrthod y gŵyn neu ei chyfeirio at Banel Apeliadau'r Senedd

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) yn rhedeg cynllun annibynnol i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwnnw. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i'r OIA adolygu'r achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i'r OIA, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: <https://www.oiahe.org.uk/students>.

Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn i chi gwyno i'r OIA. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl ichi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nid oes dim camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig. Hyd yn oed os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallech ddisgwyl derbyn un, yma: <https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters>.

I ddod â chwyn gerbron yr OIA, mae angen i chi gyflwyno Ffurflen Gwyno'r OIA a honno wedi'i chwblhau cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd angen i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at yr OIA.